## Tachwedd 2015

# Perfformiad yr Heddlu: Oedi gydag archwiliadau DBS yn yr Heddlu Metropolitan

gan Ian Johnston
Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu)

**Rydyn ni'n helpu Heddlu mwyaf y DU, yr Heddlu Metropolitan (y Met), i dargedu un o'r problemau mwyaf sy'n achosi oedi. Fel yr esbonia Ian Johnston**

Mae'n rhaid i adolygiadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gael eu hadolygu gan heddluoedd lleol. Mae rhai ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Met yn cymryd llawer mwy na'n targed 60 diwrnod i symud ceisiadau yn eu blaen, ac mae rhai'n cymryd 120 diwrnod cyn y byddan nhw'n dechrau cael eu prosesu.

Rydym yn deall effaith hyn, heb sôn am y canlyniadau i ymgeiswyr a chyflogwyr. Fy mhrif flaenoriaeth i yw datrys y sefyllfa hon cyn gynted â phosib.
Rwyf fi a'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Met i'w helpu i wella eu perfformiad. Ond wrth ystyried nifer y ceisiadau, mae'n anochel y bydd hyn yn cymryd cryn amser i'w ddatrys.

Ers mis Awst, mae'r Met wedi bod yn gweithio'n unol â chynllun adfer y cytunwyd arno. Maen nhw'n recriwtio mwy o staff, yn ogystal â hyfforddi a defnyddio adnoddau ychwanegol yn yr Uned Ddatgelu. Mae tua 30 o staff ychwanegol ar wahanol gamau yn y broses recriwtio ar hyn o bryd, a bydd 20 o staff eraill yn cael eu cyflogi ar gyfer shifftiau nos er mwyn cryfhau'r gwasanaeth. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn gwella cynhyrchiant yn ôl 1000 o geisiadau yr wythnos. Bydd y Met hefyd yn blaenoriaethu rhai achosion, ac yn symud gwaith brys ymlaen pan fo hynny'n bosib.

Er bod y cynllun yn mynd rhagddo ers tro, i ddechrau bydd nifer y ceisiadau sydd wedi cronni yn dal i gynyddu ym mis Rhagfyr cyn lleihau'n sylweddol yn ystod y misoedd dilynol er mwyn cyrraedd y targed adfer ar gyfer mis Gorffennaf 2016.

Er ein bod yn gweithio gyda'r Met i sefydlu'r cynllun adfer hwn mae angen eich help chi arnom ni er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn, yn enwedig ymysg cymunedau o ofalwyr a gyrwyr tacsi yn ardal Llundain.

Os ydych chi'n adnewyddu trwyddedau tacsi neu'n prosesu ceisiadau gan ofalwyr maeth yn ardal Llundain, dywedwch wrth eich cwsmeriaid am gyflwyno eu cais DBS cyn gynted â phosib. Bydd hyn yn helpu i leihau'r potensial y bydd y Met yn wynebu oedi pellach wrth brosesu ceisiadau.

Hefyd, dylai ymgeiswyr danysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru o fewn 19 diwrnod i gyhoeddi'r dystysgrif.

## Copi NEWYDDION DBS – Tachwedd 2015

Mae'r DBS ac Uned Ddatgelu Heddlu'r Met yn ymddiheuro am yr oedi, a byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd a'r gwelliannau rydym yn eu gwneud gyda'n gilydd.
Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Rydym yn gweithio gyda'r Met i wella cynhyrchedd yn ôl 1000 geisiadau yr wythnos

Dylai ymgeiswyr danysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru o fewn 19 diwrnod i gyhoeddi'r dystysgrif.

**Bydd Prif Weithredwr DBS, Adriènne Kelbie, yn ymgymryd â rôl newydd yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear [tudalen 2]**

## Newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf

# Prif Weithredwr yn ymgymryd â rôl newydd

**Bydd Adriènne Kelbie yn ymgymryd â rôl newydd fel Prif Weithredwr y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ym mis Ionawr 2016**

Mae Adriènne wedi goruchwylio newidiadau mawr yn ystod ei chyfnod gyda DBS. Ar ôl uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA), arweiniodd y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a gwasanaethau newydd gan roi cyfeiriad strategol clir ar gyfer y dyfodol.

Yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, bydd Adriènne yn gweithio gyda'r bwrdd a'r staff i sicrhau bod y diwydiant niwclear yn cael ei reoleiddio'n llym, wrth iddo chwarae hyd yn oed mwy o rôl ym marchnad ynni'r DU.
Dywedodd Cadeirydd Bwrdd DBS, Bill Griffiths:

"Diolch i weledigaeth, penderfyniad a brwdfrydedd Adriènne, mae DBS wedi cymryd camau breision. Ond dydy hi byth yn gadael i neb golli golwg ar ein pwrpas o ddydd i ddydd – sef amddiffyn y cyhoedd a chadw pobl agored i niwed yn ddiogel.

Rydw i'n hynod falch dros Adriènne, ac yn ei llongyfarch ar y dyrchafiad hwn i swydd uwch yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a fydd hefyd yn cynnig cyfle a her iddi. Rwy'n gobeithio y byddwn ni'n llwyddo i recriwtio rhywun sydd â'r un brwdfrydedd ac uchelgais."

Ychwanegodd Adriènne:

"Mae wedi bod yn fraint enfawr cael gweithio gyda staff DBS ers dros 3 blynedd, ac arwain rhaglen o newidiadau sydd wedi llwyddo i gynyddu'r gwaith diogelu a wneir i sicrhau bod hyd yn oed mwy o oedolion a phlant agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.

Er nad oedd gadael DBS yn benderfyniad hawdd, rwy’n teimlo bod yr amser yn iawn i mi achub ar y cyfle hwn.

Gan y byddaf yn gweithio i’r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, byddaf yn dal i ymwneud â’r maes diogelu. Mae hynny’n rhoi cymaint o foddhad i mi, a dyma’r prif sbardun i mi barhau i weithio ym maes gwasanaeth cyhoeddus.”

Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr, Adele Downey, fydd y Prif Weithredwr tra byddwn ni’n chwilio am Brif Weithredwr parhaol newydd.

> “Diolch i weledigaeth, penderfyniad a brwdfrydedd Adriènne, mae DBS wedi cymryd camau breision.”
>
> Bill Griffiths,
> Cadeirydd DBS

# Gwireddu Dyheadau drwy sicrhau Rhagoriaeth ym maes Gwasanaeth Cwsmeriaid

Ym mis Medi, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig iawn ar hyd ein taith i fod yn ganolfan ragoriaeth. Ar ôl misoedd lawer o waith ymchwil, cynllunio camau gweithredu, meincnodi gyda sefydliadau allanol a chasglu tystiolaeth, roeddem yn falch dros ben o gael ein hachrediad Rhagoriaeth ym maes Gwasanaeth Cwsmeriaid. Mae’r sefydliad cyfan wedi gweithio’n ddiflino i ddysgu gan arferion gorau ac i wreiddio egwyddorion dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar y cwsmer.

Yn ôl ein hasesydd, rydym yn dangos ymrwymiad corfforaethol clir i sicrhau bod y cwsmer wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Cawsom ganmoliaeth hefyd am ddod o hyd i batrymau mewn cwynion ac am ddatblygu a dysgu gan arferion gorau, yn ogystal â’n hymroddiad i fodloni anghenion ein cwsmeriaid.

Ond, fyddwn ni ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau ar ôl cael yr achrediad. Mae lle i wella bob amser, a byddwn yn parhau i weithio gyda chi i amddiffyn y cyhoedd gan ymateb i flaenoriaethau newydd a rhagori ar eich disgwyliadau ar yr un pryd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, neu os hoffech chi rannu’ch profiad o’r DBS neu arferion gorau eich sefydliad chi, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy anfon e-bost at CSE@dbs.gsi.gov.uk

## Datblygu busnes

# Archwiliadau Troseddol Ewropeaidd
# Diogelu ar draws ffiniau

## Copi NEWYDDION DBS – Tachwedd 2015

gan Barbara Howard,
Pennaeth Strategaeth, Polisi a Llywodraethu

Rydym newydd lansio cynllun peilot i dreialu mynediad at wybodaeth am gofnodion troseddol gan yr Undeb Ewropeaidd (UE). Bydd y cynllun peilot, a fydd ar waith tan fis Ebrill 2016, yn effeithio ar ddinasyddion o'r Iseldiroedd a Latfia sy'n ceisio cael swydd yn y DU. Rhagor o wybodaeth gan Barbara Howard

Mae dros 650,000 o'r tystysgrifau datgeliad rydym yn eu proses bob blwyddyn yn cael eu cyflwyno gan ymgeiswyr sydd ddim yn ddinasyddion y DU. Er ein bod yn cynnig canllawiau ar sut mae cael tystysgrifau ymddygiad da gan wledydd y tu allan i'r DU, mae'ch adborth chi'n awgrymu bod hyn yn fater cymhleth ac yn cymryd llawer iawn o amser.

Does dim system yn bodoli ar hyn o bryd i gael gafael ar wybodaeth gan wledydd eraill yn yr UE ac i ychwanegu rhywun at restrau gwaharddiadau DBS, ond mae fframwaith cyfreithiol ar gael ar gyfer gwneud hynny.

Y cynllun peilot hwn yw'r cyntaf o'i fath gan Lywodraeth y DU, a bydd yn cael ei gynnal ar y cyd gan DBS, Y Swyddfa Gartref ac Awdurdod Canolog y DU (UKCA), sy'n cyfnewid gwybodaeth am droseddau rhwng y DU a gwledydd eraill. Bydd y cynllun peilot yn effeithio ar archwiliadau manwl ar gyfer unigolion sy'n ceisio gweithio gyda phlant ac sy'n ddinasyddion o'r Iseldiroedd neu Latfia yn ôl eu cenedligrwydd ar y ffurflen gais.

Bydd DBS yn gwneud cais am archwiliad gan yr Iseldiroedd neu Latfia drwy UKCA ar gyfer y ceisiadau hyn. Bydd awdurdodau'r Iseldiroedd a Latfia yn rhoi gwybodaeth am droseddau i'r DU yn unol â'u rheolau datgelu, sy'n golygu eu bod yn cael dilyn eu fersiwn eu hunain o'r ddeddf adsefydlu troseddwyr. Bydd y cynllun peilot yn defnyddio prosesau a systemau presennol DBS, felly ni fydd angen i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch gwasanaeth.

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd gwybodaeth ddiogelu, ac mae'r cynllun peilot hwn yn gam cyntaf pwysig ar ein taith i gael gafael ar ddata o'r tu allan i'r DU. Gwyddom o'ch adborth y bydd hyn yn ychwanegiad pwysig i'n gwasanaethau.
Yn ystod y pedair wythnos gyntaf yn unig ers lansio'r cynllun, rydym wedi gwneud cais am archwiliadau ar gyfer dros 720 o geisiadau perthnasol.

Dywedodd Sarah Mills, Swyddog Datblygu Gwasanaeth yn UKCA: "Gan fod DBS yn rhan o'r cynllun, gallwn rannu ein harbenigedd a pharhau i ddatblygu ein perthynas. Fel grŵp, gallwn roi mwy o wybodaeth gefndirol i sicrhau bod cymaint â phosib o fesurau diogelu yn cael eu rhoi ar waith i gyrff rheoleiddiol ystyried a yw ymgeisydd yn addas ar gyfer swydd."

Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot, byddwn yn cysylltu â llawer ohonoch chi er mwyn eich cynnwys yn y broses werthuso. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â customerservices@dbs.gsi.gov.uk.

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd gwybodaeth ddiogelu, ac mae'r cynllun peilot hwn yn gam cyntaf pwysig ar hyd ein taith i gael gafael ar ddata o'r tu allan i'r DU.

Disgwylir y bydd y cynllun peilot hwn yn effeithio ar 3,500 o geisiadau dros y cyfnod o chwe mis.

## Gair gan y rhwydwaith

# Pobl sydd wedi'u cael yn euog o derfysgaeth yn cael eu gwahardd yn awtomatig, yn sgil mesurau newydd y strategaeth gwrtheithafiaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth

gan Pukul Rana,
Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid

**Yn sgil cyhoeddiad y llywodraeth ynghylch gwrtheithafiaeth, byddwch wedi gweld y bydd gan DBS fwy o rôl wrth amddiffyn y cyhoedd o bosib**

Byddai'n golygu y byddai unrhyw un ag euogfarn neu orchymyn sifil am droseddau terfysgaeth neu weithgarwch eithafol yn cael eu gwahardd yn awtomatig rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant – yn yr un modd ag unigolion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhyw.

Yn ôl ffigurau diweddaraf yr heddlu, cafodd 338 o bobl eu harestio am droseddau gwrthderfysgaeth y llynedd. Roedd 157 o'r rhain yn gysylltiedig â Syria a 56 ohonyn nhw'n iau nag 20 mlwydd oed, sy'n duedd gynyddol.

Dywedodd y Prif Weinidog, David Cameron:

"Mae rhan allweddol o'r dull gweithredu newydd hwn yn mynd ymhellach i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag y risg o radicaleiddio drwy sicrhau bod gan rieni a sefydliadau cyhoeddus yr holl gyngor, adnoddau a chefnogaeth ymarferol sydd ei hangen arnyn nhw."

Mae hyn yn gefnogaeth sylweddol i'r gwaith rydym yn ei wneud i amddiffyn y cyhoedd. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi dros y misoedd nesaf, wrth i ni gael gwybod mwy am beth fydd hyn yn ei olygu i ni.

Mae'r mesurau newydd yn ceisio sicrhau bod pobl sydd wedi'u cael yn euog o derfysgaeth yn cael eu gwahardd yn awtomatig rhag gweithio gyda phlant a phobl agored i niwed

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL NALEO
## Ymgysylltu â gyrwyr tacsi a cherbydau hurio preifat

Ym mis Medi roedd ein Pennaeth Datblygu Polisi Dros Dro, Helen Chandler, yn siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Trwyddedu a Gorfodi (NALEO) yn Birmingham. Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i siarad yn uniongyrchol â swyddogion trwyddedu ac i glywed am eu pryderon ynghylch diogelu yn uniongyrchol.

Roeddem yn gallu ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan ein helpu i ddeall yr heriau maen nhw'n eu hwynebu. Cawsom gyfle hefyd i egluro pam ei bod mor bwysig bod ffurflenni cais yn cael eu llenwi'n gywir, ac i godi ymwybyddiaeth o effaith unrhyw oedi a achosir gan ddiffyg gwybodaeth neu wybodaeth anghywir.

Mae archwiliadau DBS yn cael eu defnyddio fel rhan o'r prawf person 'addas a phriodol' wrth wneud penderfyniadau trwyddedu. Cafwyd trafodaeth am effaith penderfyniadau diweddarach i roi contractau i yrru plant a grwpiau agored i niwed.

Dywedodd Helen Chandler: "Mae'n braf cael sgwrsio â'n cwsmeriaid fel hyn, er mwyn i ni allu eu helpu i gael y gorau o'n gwasanaethau – a hyd yn oed eu helpu i feddwl am ffyrdd o wella eu harferion diogelu."

Mae'r lefel hon o ymgysylltu, ynghyd â'r gwaith rydym wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth, wedi arwain at leihad amlwg yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu llenwi'n anghywir. Mae hyn, yn ei dro, wedi lleihau faint o amser mae'n ei gymryd i brosesu'r archwiliadau hyn, sy'n golygu bodd modd sicrhau'n gyflymach bod y bobl iawn yn y swyddi iawn.

"Mae'r lefel hon o ymgysylltu, ynghyd â'r gwaith rydym wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth, wedi arwain at leihad amlwg yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu llenwi'n anghywir."

---

**O dan y chwyddwydr**

---

# Cyfeirio unigolyn i'w wahardd
## Eich dyletswydd i gyfeirio

Gan Graham Sadler,
Rheolwr Cysylltiadau Diogelu

## Copi NEWYDDION DBS – Tachwedd 2015

**Gwyddom fod cyfeirio pobl yn dasg anodd i reolwyr, fel mae Graham Sadler, Rheolwr Cysylltiadau Diogelu, yn egluro:**

Fel cyflogwr neu reolwr gwirfoddolwyr, mae gennych chi ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unigolyn atom ni i'w wahardd yn dilyn digwyddiad diogelu.

Mae gennym ni ddyletswydd statudol i wahardd pobl anaddas rhag gwneud gweithgaredd rheoledig gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed. Os ydych chi'n rheoli pobl sy'n gwneud gweithgaredd rheoledig, yn gyfreithiol mae'n rhaid i chi gyfeirio rhywun:

1. Os ydych chi'n eu diswyddo o swydd sy'n cynnwys gweithgaredd rheoledig neu'n adleoli rhywun i swydd sy'n cynnwys gweithgaredd heb fod yn rheoledig, nes os byddan nhw'n ymddiswyddo cyn i hynny ddigwydd.

2. Os ydych chi wedi diswyddo neu adleoli rhywun oherwydd eich bod yn meddwl bod y person:

wedi cael rhybudd neu wedi'i gael yn euog o drosedd perthnasol
yn ymddwyn mewn ffordd berthnasol
wedi bodloni'r prawf niwed

Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i chi gyfeirio'r person at DBS o hyd – hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi cyfeirio'r digwyddiad at gorff arall (fel yr heddlu, awdurdod lleol neu reoleiddiwr proffesiynol) neu os oes corff arall eisoes wedi cyfeirio'r person atom.

Mae gweithgaredd rheoledig yn ehangach nag amryw o sancsiynau proffesiynol. Mae gwaharddiad DBS yn helpu i wneud yn siŵr nad yw pobl anaddas yn gallu dod i gysylltiad â grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, drwy waith neu rôl wirfoddol.

I ystyried y risg o niwed a achosir gan berson, rydym yn dibynnu arnoch chi i gyfeirio yn gyson ac yn amserol.

Mae'r holl ganllawiau ynghylch gwaharddiad DBS ar gael ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses gyfeirio anfonwch e-bost at dbsdispatch@dbs.gsi.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01325 953795.

| |
|---|
| Yn gyfreithiol mae'n rhaid i chi gyfeirio person at DBS hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi cyfeirio'r digwyddiad at gorff arall |

# Lansio Cod Ymarfer diwygiedig DBS

Mae Cod Ymarfer DBS wedi cael ei ddiweddaru, ac mae ar gael ar ein gwefan yn awr. Mae swyddogaethau datgelu wedi'u nodi yn Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn datgan bod angen i gyrff cofrestredig ddilyn y cod

ymarfer hwn. Mae'r cod ymarfer yn berthnasol i holl gyrff cofrestredig DBS a'r rhai sy'n cael gwybodaeth gan y gwasanaeth diweddaru o dan adran 116A o Ddeddf yr Heddlu 1997.

Mae hyn yn cynnwys cyrff cofrestredig sy'n cyflawni swyddogaeth ymbarél i sefydliadau sydd heb eu cofrestru. Mae'r cod yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyfnewid rhwng DBS a'r corff cofrestredig.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan.

# Cysylltu

**Cyfeiriad**
PO Box 3961
Royal Wootton Bassett
SN4 4HF

Ar gyfer materion a gwybodaeth am ddatgelu, ffoniwch:

**Llinell Gymorth DBS**
03000 200 190
**Y Llinell Gymraeg**
03000 200 191
**Minicom**
03000 200 192

**E-bost**
customerservices@dbs.gsi.gov.uk

**Gwefan**
www.gov.uk/dbs

Defnyddiwch ein gwasanaeth tracio ar-lein i weld cynnydd ceisiadau DBS.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf**
Gallwch gofrestru i gael ein hysbysiadau e-bost drwy ymuno â'n rhestr bostio.

**Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cofrestru yn gyfredol**
Os ydych chi'n gorff cofrestredig, mae angen i chi ddiweddaru'ch manylion yn gyson. Darllenwch ein canllawiau i gyflogwyr am ragor o wybodaeth.